***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2626 (Cy.223)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *7 Medi 2007* |
| *Yn dod i rym* | - - | *12.00 ganol dydd ar 8 Medi 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a daw i rym ar ganol dydd ar 8 Medi 2007.

**Diwygio**

**2.** Diwygir Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(**2**) drwy hepgor erthygl 3A.

*Rhodri Morgan AC/AM*
Prif Weinidog Cymru

7 Medi 2007

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) O.S. 2003/1966 (Cy.211) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/179 (Cy.30), O.S. 2006/1036 (Cy.106) ac O.S. 2007/2475 (Cy.211).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1966 (Cy.211)) i dynnu ohono'r mesurau brys sy'n cynyddu'r cyfnod segur o 6 diwrnod i 20 o ddiwrnodau ac yn datgymhwyso paragraff 8 o Atodlen 1 a pharagraff 13 o Atodlen 2 mewn cysylltiad â symudiadau penodol mewn grwp meddiannaeth unigol.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.